**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Tachwedd 2017

Annwyl Simon

Cyn sesiwn graffu ar y Gyllideb yr wythnos hon yn y Pwyllgor Cyllid, roeddwn am amlinellu fy mwriad i ailstrwythuro Cyllideb ddrafft 2018-19 i gyd-fynd â'r portffolios Gweinidogol newydd ar ôl ad-drefnu'r Cabinet.

Roedd cynigion y Gyllideb ddrafft amlinellol a gyhoeddwyd ar 3 Hydref, a chynigion y Gyllideb fanwl a gyhoeddwyd ar 24 Hydref, yn adlewyrchu portffolios Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar y pryd.

Er mwyn bod yn gwbl glir ynghylch Cyllideb Llywodraeth Cymru a'n cynlluniau gwariant, fy mwriad yw ailddatgan tablau Llinell Wariant yn y Gyllideb y Prif Grŵp Gwariant (MEG) a gyhoeddwyd yn rhan o'r cynigion gwariant manwl ar 24 Hydref, i gyd-fynd â strwythurau newydd y portffolios.

Newid gweinyddol yn unig fydd hyn i reoleiddio'r newidiadau i'r strwythurau newydd a'r portffolios Gweinidogol. Wrth ailddatgan tablau'r gyllideb, byddwn yn cysoni'r tablau a gyhoeddwyd ym mis Hydref i gyd-fynd â'r strwythurau newydd. Wrth wneud hyn, byddwn hefyd yn ailddatgan sefyllfa Cyllideb 2017-18 i gefnogi'r gwaith o graffu ar yr Ail Gyllideb Atodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol hon.

Mae tablau diwygiedig Llinell Wariant yn y Gyllideb y Prif Grŵp Gwariant yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion. Byddaf yn cyhoeddi'r tablau cyn y drafodaeth ar y Gyllideb ddrafft ar 5 Rhagfyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y pwyllgorau polisi.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance